



John Jones, Maesygarneidd (1597-1660)

**D**wi'n siwr nad wyf yn wahanol iawn i aelodau eraill o Gymdeithas Bob Owen yn fy hoffter o droi i mewn i siopau llyfrau ail-law i bori a byseddu hen gyfrolau. Ond sawl aelod wrth wneud hyn sydd wedi cael y sioc o ddod wyneb yn wyneb â hanes un o'i gyndeidiau ynghyd â'r ffaith ei fod, efallai, yn perthyn i un o 'arwyr' y genedl?


Ers ryw bum mlynedd bum yn hel achau. Hobi go boblogaidd sy'n mynd â chi ar drywydd sawl sgyfarnog – ac wrth gwrs sawl sgerbwdd. Ceir llwyddiant am yn ail â siom gan daro sawl wal ar y daith. Cymerwch deulu fy nhaid, tad fy mam. Gwyddwn ei fod wedi ei eni ym Mhorthmadog. Canfod bod ei dad o Landdeusant ym Môn a'i fam o Ddolgellau ym Meirion. Roedd Ellen (neu Elinor) Roberts - Nain Port chwedl fy mam - yn hanu o fferm hynafol Galledra a llwyddais i ddarganfod iddo fod yn gartref i deulu ei mam ers sawl cenhedlaeth. Ei thad wedyn, Richard Roberts, yn dod o Ardudwy, mab ieuengaf John Roberts a Margaret Jones a fu'n ffermio Cae'r Ffynnon, Llanenddwyn. John Roberts yn ei dro yn fab i Robert Richard a Susan Owen, Ystumgwern ac yn ŵyr i Richard Robert ac Elizabeth William o Uwchlaw'rcoed. Roeddwn wedi gwneud yn reit dda, wedi cyrraedd y seithfed ach: ond ni allwn yn fy myw gamu'n ôl ymhellach na 1714, sef blwyddyn geni Richard Robert yn ôl y manylion ar ei garreg fedd ym mynwent eglwys Llanenddwyn.

Hynny yw – hyd nes i mi gamu i mewn i Siop Lyfrau'r Hen Bost yn y Blaenau. Codi llyfr clawr coch llachar oddiar y sillf a "datrys" y broblem. Wel, efallai! Dyma'r hyn a ddarllenais: cawn un o'r enw Robert David yn marw yn Uwchlaw'rcoed yn 1739, yr hwn oedd yn fab neu yn ŵyr i ferch John Jones, Uwchlaw'rcoed, yr hwn oedd yn fab i Cynol John Jones. Dyma ach disgynyddion Robert David, Uwchlaw'rcoed:— Robert David, Uwchlaw'rcoed a briododd Gwen Richard, o'r Tŷ mawr, Dyffryn. Plant y rhai hyn oeddynt Richard Roberts, Mary a

Margaret. Richard Roberts y mab hynaf a arosodd yn Uwchlaw'rcoed ac a briododd ei wraig gyntaf, o'r hon a cafodd fab o'r enw Robert Richard. Priododd Richard Roberts, Uwchlaw'rcoed eilwaith, un o'r enw Frances Poole, o'r hon y cafodd dri o feibion, sef Richard, David, a Henry. Aeth Robert Richard, mab hynaf Richard Roberts, Uwchlaw'rcoed, i Ystumgwern i fyw at deulu ei fam. Priododd Robert Richard un o'r enw Susan Owen ac arosasant i fyw yn Ystumgwern.

Diawch! Yn amlwg roedd y llyfr yn sôn am yr un teulu. Ond faint o gred allwn roi ar y manylion? Holli ble efallai ydy nodi bod ail briodas Richard Robert wedi esgor ar chwech o blant ac nid tri o feibion. Ond tybed wyf yn wir yn hanu o'r un cyff â'r teyrnladdwr ei hun, y Cynol John Jones, Maes y Garneidd? Toeddwn i erioed wedi gweld fy hun yn frenhinwr o unrhyw fath ond ni feddyliais erioed am dorri pen neb ychwaith. Bid a fo am hynny, roedd rhaid prynu'r llyfr, sef *Ardudwy a'i Gwron* gan David Davies, Harlech. Wrth ddarllen y llyfr daeth yn amlwg bod yr awdur wedi gallu manteisio ar ffynonellau nad ydynt ar gael i ni heddiw. Ei brif ffynhonnell oedd yr hyn a elwir gennym yng nghorff y gwaith yn Ystumgwern MSS.....wedi ei gasglu gan un o ddisgynyddion Ystumgwern. Ar y pryd (cyhoeddwyd y llyfr yn 1914) roedd y ddogfen hon yn ddiogel yng nghartref un o'r teulu yn Wrecsam. Erbyn heddiw toes wybod lle mae – yn anffodus nid oes sôn amdani mewn archifdy na Llyfrgell Genedlaethol. Mae'n bosibl ei bod wrth gwrs yn hel llwch mewn atic yn rhywle. Gobeithio wir.

Sut oedd modd i mi roi prawf ar honiadau David Davies? Gwyddom eisoes pa mor ddiffygiol a darniog oedd cofnodion eglwysig y cyfnod. Serch hynny roedd yma wybodaeth newydd. Beth am chwiriwydd Richard Robert, sef Mary a Margaret? Wedi chwilota llyfrau'r plwy' ac ati ac yn enwedig y casgliad ewyllysiau yn y Llyfrgell Genedlaethol medrais fodloni fy hun yn hyn o beth o leiaf. Roedd Mary wedi priodi â Griffith Humphrey, Taltreuddyn Fawr a Margaret gyda John Robert Graig Ucha, Llanenddwyn. Ond beth am eu rhieni? Yn anffodus nid oes cofnod o briodas na chladdedig-aethau Robert David a Gwen Richard. (Jyst i ddrysu pethau mae na gofnod yn Adysgrifau'r Esgob am fedydd Richard, mab i Robert David a'i wraig Lowri yn mis Ebrill 1715 !!!)



Maesygarneidd – cartref John Jones

Beth arall allwn ddarganfod? Er mor bytiog yw cofnodion Eglwys Llanenddwyn mae gwybodaeth ynddynt am deulu a fu'n trigo yn Uwchlaw'r coed genhedlaeth cyn cyfnod Robert David a Gwen Richard. Y cyfeiriad eglwysig cynharaf at Uwchlaw'rcoed yw priodas yn 1703 rhwng Mary Owen o Uwchlaw'rcoed ac Edward Prichard o Landanwg. Wrth chwilota gwelais mai Mary oedd y cyntaf o bump o blant a fedyddiwyd i Owen ap Richard a Jane ei wraig rhwng 1688 a 1704. Wrth ymbalfalu ymhellach yn nogfennau'r cyfnod medrais ddilyn rhywfaint ar achau Owen Prichard. Roedd yn fab hynaf i Richard Owen a Jonet Francis, Lasynys Fach. Roedd ganddo frawd, Francis (a fu'n athro yn Ysgol Biwmares ac wedyn yn Rheithor yn Llanrhyddlad) ac o leiaf pedair chwaer. Priododd un ohonynt, Lowri Richard gydag Owen Humphrey (o'r Ynys, Llanfihangel efallai) ac fe enwir eu mab, Humphrey Owen, fel cefnder iddi, yn ewyllys Mary Robert, Taltreuddyn. Prawf bod rhyw gysylltiad teuluol rhwng y ddwy genhedlaeth a fu'n byw yn Uwchlaw'rcoed. A darn bach arall felly o wybodaeth sy'n helpu cloi y jig-so achyddol at ei gilydd.

Faint callach ydwyf, dwedwch, ar ôl i mi godi'r llyfr coch llachar yna oddiar y sillf yn Siop yr Hen Bost? Yn sicr mae wedi creu oriau o waith i mi ac mae'n rhaid cyfaddef fy mod wedi gallu casglu mwy o wybodaeth am fy nheulu – ond am y cysylltiad â'r Cynol, wel dwn i ddim. Mae peth amwysedd yng ngeiriau David Davies ei hun. Dywed bod Robert David ...yn fab neu ŵyr i ferch John Jones. Mae gwahaniaeth cenhedlaeth yn dipyn o wahaniaeth. Mae damcaniaeth David Davies parthed cysylltiad Cynol John Jones a Robert David yn dibynnu bron yn gyfangwbl ar yr hyn a elwir y "traddodiad yn Ardudwy". Er hynny hoffwn i ddim diystyrru ei awgrym. Felly bydd rhaid ymchwilio ymhellach gan obeithio canfod os oes yn wir cysylltiad gellir ei brofi â ffeithiau.

Gyda llaw os gwêl un o ddarllenwyr *Y Casglwr* ddogfen sy'n edrych yn debyg i'r Ystumgwern MSS yn rhywle – fe wyddoch pwy sy'n torri'i fol eisau ei darllen.